

Cyfarwyddiadau i Gyfranwyr

Wrth baratoi eu cyfraniadau dylai awduron ymgynghori â'r cyfarwyddiadau a geir yn Elwyn Davies, *Cyfarwyddiadau i Awduron*, ail argraffiad (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1969); Rhiannon Ifans, *Y Golygiadur* (Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, 2006); *New Hart's Rules* (Oxford: Oxford University Press, 2005); *New Oxford Dictionary for Writers and Editors* (Oxford: Oxford University Press, 2005), ynghyd â'r cyfarwyddiadau manwl a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn hwn o gyfrol 16, rhifyn 3 a 4 (Ionawr–Gorffennaf 1990–1) hyd gyfrol 19 (1996). Ar gyfer enwau lleoedd, dylid dilyn y ffurfiau a argymhellir yn Elwyn Davies, *Rhestr o Enwau Lleoedd*, trydydd argraffiad (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1967).

Cyfeirio at Ffynonellau

1. Mewnosodwch **ôl-nodiadau** wedi eu rhifo (1, 2, 3...) gan ddefnyddio systemau awtomatig eich rhaglen eirbrosesu er mwyn cyfeirio at ffynonellau yn y dull a ganlyn (ni ddylid defnyddio unrhyw ddull arall, megis 'dull Harvard'):

Llyfr

Sioned Davies, *The Mabinogion* (Oxford: Oxford University Press, 2007), t. 54.

Allan James, *John Morris-Jones*, cyfres Dawn Dweud (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2011), tt. 194–220.

Ernest de Selincourt a Helen Darbishire (goln), *William Wordsworth, the Poetical Works*, pum cyfrol (Oxford: Clarendon Press, 1940–9), cyf. 5, tt. 277–8.

John Rowlands (gol.), *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul: Gwasg Gomer), t. 2.

Dafydd Huws, *Dyddiadur Dyn Dŵad*, ail argraffiad (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1998), tt. 17–18.

Sylwer y dylid nodi enw'r man cyhoeddi a'r wasg yn yr iaith a geir yn y gyfrol ei hunan (hynny yw, yn achos yr enghraifft gyntaf uchod ni ddylid cyfieithu 'Oxford' yn 'Rhydychen').

Pennod mewn llyfr

Christine James, 'Pen-rhys: Mecca'r Genedl', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Cyfres y Cymoedd: Cwm Rhondda* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995), tt. 56–7.

Jason Walford Davies, "'Pa Wyrth Hen Eu Perthynas?": Waldo Williams a "Chymdeithasiad Geiriau"', yn Damian Walford Davies a Jason Walford Davies (goln), *Cof ac Arwydd: Ysgrifau Newydd ar Waldo Williams* (Llandybie: Cyhoeddiadau Barddas, 2006), tt. 210–11.

Erthygl mewn cylchgrawn

R. Geraint Gruffydd, 'Dau Lenor Cymraeg Alltud: Maurice Kyffin a Huw Lewys', *Llên Cymru*, 30 (2007), 143–59.

Siwan M. Rosser, 'Lladron a Beirniaid Llên: Astudio Baledi'r Ddeunawfed Ganrif', *Studia Celtica*, 41 (2007), 185–98.

Os oes angen cyfeirio at gyfrol a rhifyn cylchgrawn, defnyddir gorwahannod (colon), e.e. 25:3.

Sylwer na ddefnyddir y byrfoddau 't.' a 'tt.' wrth gyfeirio at erthyglau mewn cylchgronau. (Os cyfeirir at linellau, dylid defnyddio'r byrfoddau 'll.' a 'llau.')

Deunydd Digidol

Erthygl mewn cyfnodolyn electronig

Craig Owen Jones, "Ar y brig unwaith eto": siartiau pop iaith Gymraeg cynnar.

Gwerddon 14, (2013), tt. 29-45 [Ar-lein]. Ar gael:

http://www.gwerddon.org/en/media/main/gwerddon/rhifynnau/erthyglau/Craig_Owen_Jones.pdf, cyrchwyd 4 Awst 2015.

Tudalen Gwe

Llywodraeth Cymru, *Iaith Fyw: Iaith Byw* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2012)

[Ar-lein]. Ar gael: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf>, cyrchwyd 4 Awst 2015.

2. Ni ddylid italeiddio geiriau neu dalfyriadau Lladin megis *ibid.*, *idem*, *passim*. Dylid osgoi defnyddio *op. cit.*
3. Ni ddylid defnyddio byrfoddau am deitlau llyfrau neu gylchgronau. Mewn cyfeiriadau at ffynonellau ar ôl y cyfeiriad cyntaf dylid defnyddio cyfenwau awduron a theitlau byr yn hytrach na byrfoddau (e.e. Davies, *The Mabinogion*, t. 35).

Dyfynnu a Dyfyniadau

1. Wrth ddyfynnu dyfyniadau byr (llai na deugain gair), dylid defnyddio marciau dyfynnu sengl (a marciau dyfynnu dwbl ar gyfer dyfyniadau o fewn dyfyniadau). Wrth atalnodi dyfyniadau, dylid gosod yr atalnod y tu allan i'r dyfynnod sy'n cau'r dyfyniad, a gosod yr ôl-nodyn y tu allan i'r atalnod hwnnw (e.e. Dywed Jenkins mai 'anodd iawn yw mawrygu gormod ar wasanaeth Gomer i'w genedl yn ei ddydd'.¹). Ond os yw'r frawddeg a ddyfynnir yn ramadegol gyflawn, dylid rhoi atalnod llawn y tu mewn i ddyfynnod, a'r ôl-nodyn y tu allan iddo (e.e. Yn ôl Davies: 'Yn y cyd-destun Cymraeg, amhosibl yw gwybod, er enghraifft, i ba raddau y mae ffurf bresennol *Culhwch ac Olwen* yn debyg i berfformiad llafar o'r un chwedl.'²). Nid oes

angen gofod rhwng y dyfynnod, yr atalnod a'r rhif uwchysgrif sy'n cyfeirio at ôl-nodiadau.

2. Dylai dyfyniadau hir (sydd yn hwy na deugain gair) gael eu cyflwyno yn baragraff ar wahân. Dylid eu mewnosod (1 tab), a llinell o'u blaen ac ar eu hôl. Ni ddylid defnyddio marciau dyfynnu yn achos dyfyniadau sydd wedi eu mewnosod. Dylid defnyddio tri dot o fewn bachau petryal (elipsis: [...]) ymhob achos, boed y frawddeg yn orffenedig ai peidio, wrth hepgor geiriau o ddyfyniad. Os yw'r elipsis yn rhan o'r testun a ddyfynnir, nid oes angen bachau petryal.

Cyffredinol

1. Dylid rhoi gofod rhwng yr ynydau mewn enw, e.e. E. G. Bowen (*nid* E.G. Bowen).
2. Mewn brawddegau dylid teipio rhifau hyd at ddeg yn llawn mewn geiriau ac nid mewn ffigurau, e.e. 'Roedd deg o bobl yno' (*nid* 'Roedd 10 o bobl yno'). Dylid defnyddio geiriau yn hytrach na rhifau bob amser ar ddechrau brawddeg. Dylid defnyddio cyn lleied o rifau â phosibl mewn cyfres, e.e. 253–4 (*nid* 253–254 *na* 253–54), ac eithrio yn achos y rhifau rhwng 10 a 19, lle y dylid cynnwys yr 1 yn ogystal â'r rhif olaf, e.e. 215–19 (*nid* 215–9), 1914–18 (*nid* 1914–8). Dylid dangos dyddiadau fel 1 Ebrill 1979 (*nid* Ebrill 1af, 1979). Sylwer nad oes collnod yn 'y 1990au'.
3. Gwahaniaethwch rhwng cyplysnodau a dash hir (en dash): llinell dash fer sengl i gysylltu geiriau yw cyplysnod. Dylid defnyddio dash hir (–) heb ofod ar gyfer cywasgu cyfresi o rifau. e.e. dyddiadau, rhifau tudalennau, a chyda gofod cyn ac ar ôl cymalau sydd yn torri ar draws brawddegau (fel petaent mewn cromfachau). Gellir cael dash hir drwy wasgu 'ctrl' a'r arwydd '–' sydd ar ben pellaf yr allweddell ar yr

ochr dde.

4. Dylid geirbrosesu pob cyfraniad gan ddefnyddio papur maint A4 a ffont Times New Roman, maint 12. Dylid gadael ymyl sydd o leiaf 2.54 cm. bob ochr. Dylid rhifo pob tudalen yn ddilynol. **Rhaid darparu copi o bob cyfraniad yn electronig, naill ai ar ffon gof neu drwy atodiad e-bost ar llencymru@caerdydd.ac.uk.** Nid oes angen darparu copi caled.
5. Dylid defnyddio gofod dwbl (2.0) rhwng y llinellau ym mhob achos, gan gynnwys dyfyniadau a throednodiadau. Dylid mewnosod dechrau pob paragraff, ac eithrio'r paragraff cyntaf. Sylwer na ddylid unioni ochr dde'r tudalen wrth eirbrosesu.
6. Dylai awduron wirio eu herthyglau yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod mor orffenedig ag y bo modd. Y mae'n bwysig sicrhau cywirdeb cyfeiriadau a dyfyniadau, gan atgynhyrchu dyfyniadau yn union fel y maent yn y gwreiddiol. Gall newidiadau mewn proflenni olygu trafferth a chost. Dylai cyfranwyr fod ar gael i ymateb i awgrymiadau golygyddol ac i wirio proflenni yn ystod y broses olygu a chysodi.
7. Disgwylir i awduron sicrhau fod ganddynt ganiatâd i atgynhyrchu unrhyw ddyfyniadau neu ddarluniau/lluniau sydd o dan hawlfraint.

Adolygu Llyfrau

Mae *Llên Cymru* yn croesawu ceisiadau i adolygu llyfrau yn ymwneud â llenyddiaeth a diwylliant y Gymraeg. Dylid anfon cyfrolau i'w hadolygu at:

Llên Cymru, d/o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Adeilad John Percival, Rhodfa Colum, Caerdydd, CF10 3EU (e-bost: llencymru@caerdydd.ac.uk).

Gwasg Prifysgol Cymru a Mynediad Agored yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) ar ôl 2014

Dylai golygyddion a chyfranwyr fod yn ymwybodol o ofynion Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) ynglŷn â Mynediad agored ar gyfer erthyglau mewn cyfnodolion a dderbynnir ar gyfer eu cyhoeddi ar ôl 1 Ebrill 2016, a amlinellwyd yn nogfen polisi HEFCE Mawrth 2014 (cyf: 2014/07):

<http://www.hefce.ac.uk/pubs/year/2014/201407/>

Testun terfynol yr awdur wedi ei adolygu gan gymheiriaid yw'r fersiwn y dylid ei adneuo.

Cynhwysir deunydd trydydd parti yn yr erthygl a adneuir ar risg yr awdur/sefydliad ei hun.

Dylai awduron barhau i sicrhau'r hawliau i ddefnyddio deunydd trydydd parti mewn print ac ar ffurf electronig yn y ffordd arferol i ddibenion fersiwn cyhoeddedig Gwasg Prifysgol Cymru (GPC).

Polisi GPC yw gofyn am gyfnod embargo o 18 mis ar gyfer Mynediad Agored Gwyrdd, yn dechrau o ddiwrnod olaf mis cyhoeddi'r fersiwn print.

Y mae GPC hefyd yn croesawu erthyglau ar gyfer Mynediad Agored Aur. Os bydd angen hynny arnoch, cysylltwch ag Adran Gomisiynu GPC er mwyn trafod Ffi Prosesu Erthygl ('Article Processing Charge', neu APC) ar gyfer eich erthygl.

Y mae gofynion Mynediad Agored gan Gyngorau Ymchwil y Deyrnas Gyfunol (RCUK) hefyd ar gyfer erthyglau sy'n cydnabod cyllid RCUK; am ragor o fanylion, gweler

<http://www.rcuk.ac.uk/research/openaccess/>

Bydd GPC yn parhau i dderbyn a chyhoeddi erthyglau gan awduron nad oes angen iddynt gydymffurfio â gofynion y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF), o dan y trefniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd.